“Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu’ch calon. Credwch yn Nuw, a chredwch ynof finnau.”
(Ioan 14:1)

Dyma un o hoff ddywediadau’r Arglwydd Iesu yng ngolwg ei bobl ar hyd y canrifoedd. Mae’n dangos gofal arbennig y Bugail Da dros ei braidd bychan, tra bod yntau ei hun yn ymbaratoi i roi ei einioes dros ddefaid y byd.

Yn gyntaf, mae’r Arglwydd yn rhoi **anogaeth** i’w ddisgyblion, ac yna **addewid** triphlyg.

Anogaeth

Mae pob anogaeth yn werthfawr, ac mae geiriau’r Gwaredwr yn arbennig o gysurlon yn yr adnod gyntaf yma. Mae’r disgyblion yn drwm eu calon am ei fod Ef yn eu paratoi ar gyfer ei ymadawiad oddi wrthynt. Mae’n siŵr eu bod yn gymysglyd eu meddwl, gan fod un yn mynd i’w fradychu ac un arall ar fin ei wadu. Yn eu hofn a’u tristwch, mae’n debyg bod eu ffydd yn eu Meistr yn dechrau gwegian hefyd.

Felly, daw’r anogaeth i gredu – i ddal ati i gredu yn Nuw ac yn y Mab. Efallai bod rhai sydd yn darllen y geiriau hyn wedi darganfod eu ffydd yn gwegian dan bwysau tristwch mewn profedigaeth neu afiechyd neu golled o ryw fath neu’i gilydd. Weithiau, bydd cyflwr ysbrydol ein gwlad a chaledwch calon pobl yn erbyn yr Efengyl yn peri i ni simsanu. Diolch am gysur a nerth anogaeth ein Bugail Mawr. Darllenais yn rhywle y dylem bob amser amau ein hamheuon a chredu Duw.

Addewid

Yna, i’r rhai sydd yn ofni’r gwahanu, daw gobaith yr aduniad. Mae Iesu’n sôn am y nefoedd fel tŷ y Tad. Ond nid tŷ mawr gyda nifer o stafelloedd yw hwn, ond adeilad anferth gyda nifer fawr o fflatiau braf a digon o le ynddynt. Pwyslais yr Arglwydd yw fod digon o le iddyn nhw’r disgyblion hefyd, ac i bob un sydd yn credu yn y Gwaredwr. Wrth sôn am y nefoedd, mae’n ychwanegu tri pheth y bydd Ef yn ei wneud ar gyfer ei ddisgyblion.

Paratoi lle

Mae hwn yn addewid rhyfeddol. Mae’r syniad o le wedi ei baratoi a’i gadw yn y nefoedd i bechadur yn wefreiddiol. Dyma’r etifeddiaeth mae Pedr yn sôn amdani yn ei epistol cyntaf: **“Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi, chwi sydd trwy ffydd dan warchod gallu Duw hyd nes y daw iachawdwriaeth”**

(1 Pedr 1:4-5). Mae Oen Duw wedi gwneud hyn trwy gael ei *aberthu ar y groes* trosom, a sicrhau bod y llen i gysegr y nef wedi ei rhwygo.

'Pan grymodd ef ei ben,
wrth farw yn ein lle,
agorodd ffordd, pan rwygai'r llen,
i bur drigfannau'r ne'. (John Elias)

Roedd *yr atgyfodiad* hefyd yn agor y ffordd i atgyfodiad pob crediniwr. Wrth argraffu, y plât cyntaf sydd yn bwysig, yna bydd pob copi yn union yr un fath. **"Ond y gwir yw fod Crist…yn flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno"** (1 Cor. 15:20). Yna mae *eiriolaeth* ein harchoffeiriad yn sicrhau derbyniad llawn trwy ffydd yn awr, a derbyniad llawn mewn gogoniant sanctaidd yn **"Nydd Iesu Grist".**

Dod i'n nôl

Un peth yw sicrhau trefniadau i rai gael derbyniad mewn lle pwysig, peth arall yw trefnu cludiant personol ar eu cyfer. Mae Cristnogion wedi deall hyn i olygu marwolaeth. Dyma'r amser pan ddaw'r Arglwydd i gymryd ei bobl ato i'r gogoniant. Mae hynny'n wir i'r graddau y cawn fod gydag Ef mewn ysbryd yn syth wrth i ni farw (yn ôl yr addewid i'r lleidr ar y groes, Luc 23:43). Ond hefyd mae'n gyfeiriad at ei ailddyfodiad pan fydd pob credadun yn cael corff newydd gogoneddus ar gyfer gogoniant y nefoedd. Peth diflas yw mynd i gasglu pobl a hwythau heb fod yn barod – ac mae hyn yn ein hatgoffa ni o bwysigrwydd paratoi ar gyfer dyfodiad yr Arglwydd i'n casglu. Mor hanfodol yw geiriau Iesu **"Casglwch ichwi drysorau yn y nef"** (Math. 6:20).

Bod gydag Ef

Rwy'n cofio mynd i bregethu yn rhywle pan yn fyfyriwr, a mynd i'r Tŷ Capel ar ôl yr oedfa am de. Cefais fy ngosod yn y parlwr gyda the bach dymunol a'r '*News of the World*' tra bod y teulu yn mwynhau cwmni ei gilydd yn y gegin! Does dim ystyr i'r nefoedd i'r Cristion os nad yw Crist yn y canol. Dyma uchafbwynt anogaeth ac addewid Crist i'w ddisgyblion, sef cael ei weld a mwynhau ei gwmni eto. Dyma sut mae Pantycelyn yn ei roi: '

Ac yna caf ei weled Ef
pan êl y byd ar dân,
Ac edrych yn ei hyfryd wedd,
gan harddach nag o'r blaen.

Diolch am eiriau bendigedig ein Harglwydd yn y darn yma. Gadewch i ni ddal ati i gredu ynddo ac ymddiried yn llwyr yn ei addewidion.